WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

18 Mai 2010
www.wao.gov.uk

# Rheoli arian cyhoeddus Cymad Cyf

Rwyf wedi llunio'r adroddiad hwn i'w gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a 2006.

Cynhwysai tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru a'm cynorthwyodd i lunio'r adroddiad hwn David Hole a Ben Robertson, o dan gyfarwyddyd Ann-Marie Harkin.

**Gillian Body**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gwbl annibynnol ar y Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Hi sy'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddo ac sy'n gysylltiedig ag ef, yn cynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddi hefyd y pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd yn penodi archwilwyr i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru, yn cynnal ac yn hyrwyddo astudiaethau gwerth am arian yn y sector llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion gwella statudol. Fodd bynnag, er mwyn amddiffyn sefyllfa gyfansoddiadol llywodraeth leol, nid yw'n cyflwyno adroddiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n ymwneud yn benodol â gwaith llywodraeth leol ei hun heblaw am pan fo angen gwneud yn ôl statud.

Yr Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol Cymru yn y cyfeiriad uchod, ffôn 02920 320500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu gweler y wefan www.wao.gov.uk

© Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Adroddiad a gyflwynwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru
i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 18 Mai 2010

# Methodd Cymad â rheoli rhywfaint o'r arian cyhoeddus a gafodd yn ddigonol ond nid oedd tystiolaeth o gamddefnydd twyllodrus, a llwyddodd y cyrff cyhoeddus i reoli eu harian yn effeithiol ar y cyfan

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | Crynodeb | 5 |
| 1 | Ni allai Cymad ategu rhai o'i geisiadau am arian cyhoeddus, yn bennaf oherwydd rheoli ariannol gwael, ond llwyddodd i gyflawni'r rhan fwyaf o'i brosiectau yn effeithiol | 8 |
| | Roedd Cymad yn ddarparwr gwasanaethau datblygu gwledig pwysig pan wnaed honiadau o gamreoli ariannol yn 2006 | 8 |
| | Bu'n rhaid adennill rhywfaint o'r arian cyhoeddus a gafodd Cymad am nad oedd wedi cydymffurfio ag amodau ariannu, ond nid oedd tystiolaeth iddo gael ei ddefnyddio'n dwyllodrus | 10 |
| | Cafwyd gwallau yn bennaf oherwydd rheoli ariannol gwan yn Cymad | 13 |
| | Ar y cyfan, llwyddodd Cymad i gyflawni ei brosiectau yn effeithiol a dangosodd gwerthusiad fod prosiect Cyfrwng yn llwyddiant | 14 |
| | Arweiniodd tranc Cymad at leihad yn y nifer o swyddi yn y cwmni ac at fethu â chwblhau rhai prosiectau | 16 |
| 2 | Roedd contractau ariannu yn gadarn ar y cyfan a chymerodd y cyrff cyhoeddus gamau yn ddi-oed pan ddaeth problemau i'r golwg, ond oherwydd rhai gwendidau gweinyddol ni chanfuwyd gwallau gan Cymad nes i'r honiadau gael eu gwneud | 18 |
| | Roedd y meini prawf a'r gofynion eraill a osodwyd ar Cymad gan y cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gadarn ar y cyfan ond gellid eu hatgyfnerthu mewn rhai ffyrdd | 18 |
| | Oherwydd gwendidau gweinyddol methodd rhai cyrff cyhoeddus â chanfod gwallau gan Cymad nes i'r honiadau gael eu gwneud, ond cymerwyd camau yn ddi-oed i ymdrin â’r problemau ar ôl iddynt ddod i'r golwg | 20 |
| | Methodd cyrff cyhoeddus yng Nghymru â rhannu gwybodaeth yn effeithiol am y gwendidau a nodwyd ganddynt yn systemau a rheolaethau Cymad | 26 |
| | Atodiadau | 28 |
| | Atodiad 1 – Prosiectau a ariannwyd yn gyhoeddus yn Cymad | 28 |

# Crynodeb

1 Sefydlwyd Cymad Cyf (Cymad) yn 1995 fel cwmni nid-er-elw ym Mhorthmadog, Gwynedd. Daeth yn gwbl weithredol yn 1996. Yn ystod ei ddwy flynedd gyntaf, roedd cysylltiad agos rhwng amcanion Cymad ac amcanion Rhaglen Ewropeaidd Leader II a roddodd y rhan fwyaf o'i arian. Canolbwyntiodd amcanion y cwmni yn bennaf ar hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Aeth ati i'w cyflawni drwy hyrwyddo gwaith datblygu cymunedau a sgiliau, mentrau gwledig, arallgyfeirio amaethyddol, gwella'r amgylchedd, twristiaeth wledig, technoleg newydd a diwylliant.

2 Fodd bynnag, tua diwedd y 1990au, a hyd at 2005, tyfodd y cwmni yn sylweddol. Arallgyfeiriodd i feysydd eraill fel hyrwyddo'r iaith Gymraeg, a cheisiodd ddatblygu cangen fwy masnachol i'w weithgareddau. Cynyddodd incwm y cwmni yn sylweddol, o £623,000 yn 2002 i £1.6 miliwn yn 2005. Daeth llawer o'r incwm hwn o ffynonellau cyhoeddus, hyd at £3.6 miliwn dros y pum mlynedd hyd at 31 Mawrth 2008. Darparwyd yr arian hwn gan saith corff cyhoeddus ar gyfer prosiectau neu gontractau penodol (Atodiad 1).

3 O fis Mai 2006 ymlaen, cafodd yr Archwilydd Cyffredinol gwynion ynghylch yr honiadau bod Cymad wedi camddefnyddio arian cyhoeddus. Ymchwiliwyd i'r cwynion ochr yn ochr â Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) a chanfuwyd diffygion difrifol yn y ffordd yr ymdriniwyd ag arian Ewropeaidd. O ganlyniad, ym mis Hydref 2006 ataliwyd taliadau i'r cwmni dros dro gan WEFO.

4 Cwblhaodd WEFO ei ymchwiliad i Cymad ym mis Mawrth 2009. Ym mis Awst 2009, cafodd Cymad ei ddiddymu, gyda dyled o tua £259,000 o ran arian yr Undeb Ewropeaidd (UE) i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, yr oedd wedi methu â chadw'r dogfennau ategol gofynnol ar ei gyfer.

5 Mewn ymateb i'r honiadau a wnaed yn 2006 ac ar ôl hynny, mae'r adroddiad hwn yn ceisio ateb dau gwestiwn: A gamddefnyddiwyd arian cyhoeddus gan Cymad? Ac, a wnaeth y cyrff cyhoeddus yng Nghymru reoli'n effeithiol yr arian cyhoeddus a dalwyd i Cymad, yn y cyfnod ar ôl 1 Ebrill 2003? O ran yr ail gwestiwn, archwiliwyd y canlynol:

- a a oedd y meini prawf ar gyfer ariannu a'r gofynion eraill a osodwyd ar Cymad gan gyrff cyhoeddus yn ddigon cadarn;
- b a oedd y cyrff cyhoeddus a roddodd yr arian wedi cydymffurfio â'u trefniadau eu hunain ac wedi rheoli arian cyhoeddus yn effeithiol.

6 I ateb y cwestiwn cyntaf, daethom i'r casgliad na reolodd Cymad lawer o'r arian cyhoeddus a gafodd yn ddigonol ac na allai gyfrif am rywfaint o'r arian cyhoeddus a ddyfarnwyd iddo. Mewn rhai achosion, roedd y cwmni hefyd wedi codi gormod ar y cyrff ariannu, ond nid oedd tystiolaeth iddo gamddefnyddio arian cyhoeddus yn fwriadol. Yn ein barn ni, cododd y problemau hyn yn bennaf oherwydd dealltwriaeth wan o'r rheolau llym sy'n rheoli arian yr UE a rheoli ariannol gwan o fewn y cwmni.

7 Gofynnwyd i Cymad ad-dalu £259,000 o arian grant yr UE yn y pen draw, sef 28 y cant o gyfanswm arian yr UE a saith y cant o gyfanswm yr arian cyhoeddus a gafodd yn y pum mlynedd hyd at 31 Mawrth 2008. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, ychydig iawn o broblemau a gafwyd o ran arian Cymad nad oedd yn arian yr UE. Cyflawnodd Cymad y rhan fwyaf o'i brosiectau a'i gontractau'n effeithiol, ac ym marn gwerthusiad annibynnol roedd Cyfrwng, prosiect peilot Cymraeg i Oedolion yn llwyddiannus. Mae tranc Cymad wedi arwain at leihad yn y nifer o swyddi yn y cwmni ac at fethu â chwblhau dau brosiect.

8 I ateb yr ail gwestiwn, daethom i'r casgliad bod y cyrff cyhoeddus wedi rheoli arian cyhoeddus yn Cymad yn effeithiol ar y cyfan, er bod gwendidau gweinyddol mewn rhai cyrff cyhoeddus a olygai na ddaethant yn ymwybodol o'r problemau yn Cymad nes i'r honiadau gael eu gwneud yn 2006. Roedd meini prawf ariannu a chontractau'n gadarn ar y cyfan ond gallai telerau contractau fod wedi bod yn gadarnach mewn rhai ffyrdd, yn enwedig o ran ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu twyll a amheuir gan swyddogion y corff a oedd yn derbyn arian. Canfuwyd y canlynol:

- **a** Cynhaliodd y cyrff cyhoeddus arfarniadau ariannol priodol ar gyfer y rhan fwyaf o brosiectau. Drwy arfarniadau WEFO daeth risgiau i reolaeth ariannol a hyfywedd i'r golwg, ond methodd y rhain ag ysgogi gwaith monitro manylach na mwy o gymorth i'r cwmni er mwyn iddo sefydlu systemau priodol.

- **b** Cafodd Cymad ei ariannu gan WEFO mewn rhagdaliadau chwarterol, ond crëwyd risgiau penodol oherwydd rheolaethau ariannol gwael a risgiau i hylifedd yn y cwmni. Yn sgîl adolygiad a nododd broblemau o ran cyflawni ei gontract, rhoddodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg y gorau i ariannu Cymad ymlaen llaw a thrwy hynny osgowyd colled ariannol i'r Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

- **c** Roedd trefniadau monitro ac archwilio yn y rhan fwyaf o'r cyrff yn effeithiol, ond methodd trefniadau WEFO a Chyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant ag amlygu bylchau yn nogfennaeth Cymad i ategu gwariant a hawliwyd. Dywedodd Cymad wrth WEFO ei fod wedi mynd i'r afael â gwendidau a nodwyd mewn ymweliad monitro ond ni wnaeth hynny mewn gwirionedd. Ardystiwyd ceisiadau am grant gan archwilydd annibynnol y cwmni ond canfuwyd bod y rhain wedi'u camddatgan yn sylweddol.

- **ch** Cymerodd WEFO gamau yn ddi-oed ar ôl i'r problemau o ran rheoli ariannol Cymad ddod i'r golwg, a cheisiodd leihau'r golled i bwrs y wlad drwy weithio gyda'r cwmni i ddwyn ynghyd gymaint o dystiolaeth ynglŷn â gwariant ar brosiectau a ariannwyd gan yr UE ag yr oedd yn ymarferol.

- **d** Methodd rhai cyrff cyhoeddus yng Nghymru â rhannu gwybodaeth ynglŷn â'r gwendidau a nodwyd ganddynt yn systemau a rheolaethau Cymad yn effeithiol, ac nid oes system ar gyfer sicrhau y caiff gwaith asesu risg a monitro ariannol ei gydlynu rhwng cyrff cyhoeddus.

9 Bob blwyddyn, mae'r cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn neilltuo symiau sylweddol o arian i sefydliadau bach yn y sector preifat yng Nghymru. Drwy wneud hynny, mae'n hanfodol bod ganddynt ddulliau ar waith i reoli'n effeithiol y risgiau o golli neu gamddefnyddio arian cyhoeddus gan gyrff sy'n cael grant. Argymhellwn y canlynol:

**a** Dylai pob corff cyhoeddus gadarnhau hyfywedd ariannol derbynyddion y grant cyn cymeradwyo'r symiau mawr o gymorth grant, gan weithio gyda'i gilydd lle y bo modd er mwyn osgoi dyblygu gwaith. Dylai staff sydd â phrofiad o ddadansoddi cyllid cwmnïau gynnal gwiriadau hyfywedd ariannol gan ddefnyddio'r wybodaeth ariannol ddiweddaraf ar gyfer derbynnydd y grant ac unrhyw gwmnïau grŵp. Fel rhan o'r adolygiad hwn, dylai cyrff cyhoeddus gynnal asesiad risg o reoli ariannol y derbynnydd.

**b** Dylai cwmnïau cyhoeddus gynnal adolygiadau parhaus o sefyllfa ariannol cwmni mewn perthynas â risg, i nodi gwendidau posibl mewn systemau rheoli ariannol ac i gymryd camau adferol lle y bo angen.

**c** Wrth lunio contractau, dylai cyrff cyhoeddus sicrhau bod telerau contract yn lleihau'r risg o gostau ychwanegol i bwrs y wlad.

**ch** Er mwyn lleihau'r risg o ddefnydd twyllodrus o arian cyhoeddus, dylai cyrff cyhoeddus gynnwys cymal safonol mewn llythyrau cynnig grant sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r derbynnydd eu hysbysu'n ysgrifenedig ar unwaith os bydd unrhyw un o'i swyddogion sy'n ymwneud ag arian cyhoeddus yn cael ei amau o fod yn rhan o weithgarwch twyllodrus.

**d** Er ein bod yn cydnabod bod sefydliadau preifat, nid-er-elw yn aml yn wynebu cyfyngiadau sylweddol ar eu llif arian a bod angen eu hariannu ymlaen llaw fel arfer, dylai cyrff cyhoeddus asesu a lliniaru risgiau pob derbynnydd yn unigol. Os bydd swyddogion yn canfod risgiau i hyfywedd ariannol neu systemau a rheolaethau gwan mewn sefydliad, dylent gymryd camau i liniaru'r risgiau drwy, er enghraifft, fonitro'r prosiect yn fanylach a rhoi cymorth i'r sefydliad dan sylw.

**dd** Dylai WEFO ystyried ymestyn yr hyfforddiant a gynigir ar hyn o bryd i staff Llywodraeth y Cynulliad, i staff mewn sefydliadau eraill sy'n cael arian yr UE.

**e** Dylai cyrff cyhoeddus bennu canllawiau clir ynghylch camau gweithredu dilynol lle y nodir gwendidau mewn trefniadau rheoli ariannol.

**f** Dylai Llywodraeth y Cynulliad ei gwneud yn ofynnol i'w hadrannau a'r cyrff a noddir ganddi rannu'r wybodaeth am wendidau a nodir yn nhrefniadau rheoli ariannol derbynydd y grant.

# Rhan 1 – Ni allai Cymad ategu rhai o'i geisiadau am arian cyhoeddus, yn bennaf oherwydd rheoli ariannol gwael, ond llwyddodd i gyflawni'r rhan fwyaf o'i brosiectau yn effeithiol

**1.1** Asiantaeth fenter leol oedd Cymad a sefydlwyd ym mis Gorffennaf 1995 i gynorthwyo datblygu cynaliadwy cymunedau ym Meirionydd a Dwyfor. Cafodd ei ddiddymu'n wirfoddol yn unol ag ewyllys y credydwyr ym mis Awst 2009 ac mae wrthi'n cael ei ddirwyn i ben. Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried yr honiadau a wnaed yn erbyn y cwmni yn 2006 ac ar ôl hynny, effaith yr honiadau hynny a'r rhesymau sylfaenol dros dranc y cwmni.

## Roedd Cymad yn ddarparwr gwasanaethau datblygu gwledig pwysig pan wnaed honiadau o gamreoli ariannol yn 2006

**1.2** Cwmni nid-er-elw cyfyngedig drwy warant yw Cymad ac nid oes ganddo gyfalaf cyfranddaliadau. Dywed mai ei brif weithgarwch yw hyrwyddo datblygu cynaliadwy, gan gynnwys cynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol, ieithyddol, diwylliannol ac amgylcheddol. Hyrwyddodd y cwmni'r amcanion hyn drwy brosiectau a ariannwyd gan ffynonellau cyhoeddus drwy grantiau penodol neu gontractau, ac iddynt derfyn amser a chyfyngiadau ar y ffordd y gellid defnyddio'r arian.

**1.3** Yn y chwe blynedd hyd at 31 Rhagfyr 2005 nododd Cymad fod ganddo incwm o £5.8 miliwn, gyda thuedd ar i fyny i £1.5 miliwn yn 2004 a £1.6 miliwn yn 2005. Deilliodd y rhan fwyaf o'r incwm o grantiau a chontractau i gyflawni prosiectau er budd y cyhoedd. Chwaraeodd y cwmni ran bwysig o ran rhoi cyngor busnes ac mewn amrywiol brosiectau cymdeithasol ac amgylcheddol yn ardaloedd Dwyfor a Meirionydd yng Ngwynedd lle roedd wedi'i leoli.

**1.4** O 2003, er mwyn atgyfnerthu ei fusnes, arallgyfeiriodd Cymad i weithgareddau mwy masnachol. Roedd y gweithgareddau hyn yn cynnwys canolfan alwadau (a ddarparwyd gan is-gwmni, Galw Cyf) a rhentu eiddo masnachol a brynwyd drwy fenthyciadau banc ac a sicrhawyd â morgeisi.

**1.5** Hyd at 2006, roedd Cymad yn cyflawni prosiectau a chontractau ar ran saith corff cyhoeddus (Ffigur 1):

- **a** Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant, (NCETW, sydd bellach yn rhan o Lywodraeth y Cynulliad);
- **b** Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO, rhan o Lywodraeth y Cynulliad);
- **c** Cyngor Gwynedd;
- **ch** Bwrdd yr Iaith Gymraeg (BYIG);
- **d** Awdurdod Datblygu Cymru (WDA, sydd bellach yn rhan o Lywodraeth y Cynulliad);
- **dd** Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC);
- **e** Bwrdd Croeso Cymru sydd bellach yn rhan o Lywodraeth y Cynulliad).

## Ffigur 1 – Cyrff cyhoeddus a roddodd arian i Cymad

*Ceir gwybodaeth fanylach am y prosiectau yn Atodiad 1*

| Corff cyhoeddus a'r rheswm dros ariannu | Taliadau[1] (£000) |
|---|---|
| **Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (NCETW)**<br>Prosiect peilot i ddatblygu cyrsiau iaith Gymraeg mwy hygyrch i ddysgwyr. | 973 |
| **Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO)**<br>Grantiau gan yr UE am chwe phrosiect yn ymwneud â gwella amgylcheddol, datblygu ynni adnewyddadwy a datblygu cymunedol. | 900 |
| **Cyngor Gwynedd**<br>Ariannodd Cymad i gydgysylltu â ffermwyr lleol fel rhan o brosiect datblygu amaethyddol a chynnig gweithdai drama ar gyfer prosiect datblygu cymunedol. | 614 |
| **Bwrdd yr Iaith Gymraeg (BYIG)**<br>Prosiectau i gefnogi rhieni plant mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, helpu mewnfudwyr i ddod yn rhan o'r gymuned a helpu cwmnïau bach i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg. | 466 |
| **Awdurdod Datblygu Cymru (WDA)**<br>Contractau i roi cyngor busnes i fusnesau newydd a ffermwyr (a barhaodd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o fis Ebrill 2006). | 419 |
| **Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)**<br>Dau brosiect gwella amgylcheddol. | 124 |
| **Bwrdd Croeso Cymru**<br>Grantiau i osod arwyddion Cymraeg mewn siopa. | 75 |
| **Llywodraeth Cynulliad Cymru**<br>Prosiect gwella amgylcheddol a ariannwyd gan grant o Gronfa Gynaliadwyedd yr Ardoll Agregau. | 30 |
| **Cyfanswm yr arian** | **3,601** |

1 Taliadau yn y cyfnod 1 Ebrill 2003 hyd at 31 Mawrth 2008

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

**1.6** Ym mis Mai 2006, daeth honiadau ynglŷn â chamreoli ariannol cyffredinol a thwyll posibl yn Cymad yn gyhoeddus yn sgîl datgeliadau gan gyn-swyddog cyllid y cwmni. Mewn perthynas ag arian cyhoeddus, roedd yr honiadau hyn yn cynnwys:

- **a** camddefnyddio sieciau'r is-gwmni;
- **b** camddefnyddio cerdyn credyd y cwmni;
- **c** cyflenwr yn creu anfoneb ffug ar gyfer un o'r prosiectau Ewropeaidd, gan alluogi'r cwmni i hawlio arian gan Lywodraeth y Cynulliad nad oedd wedi'i wario mewn gwirionedd;
- **ch** cyfrifyddu'n amhriodol am dreth ar werth (TAW) gan y cwmni, gan ei alluogi unwaith eto i hawlio arian gan Lywodraeth y Cynulliad nad oedd wedi'i wario;
- **d** hawliadau am gost amser staff nad oedd wedi'i dreulio ar y prosiect perthnasol;
- **dd** methiant i gwblhau gwaith ar un o'r prosiectau Ewropeaidd;
- **e** rheoli a rheolaethau ariannol llac yn gyffredinol.

**1.7** Cydweithiodd WEFO a Swyddfa Archwilio Cymru i ymchwilio i'r honiadau i'r graddau yr oeddent yn ymwneud ag arian cyhoeddus ac i asesu'r effaith ar y swm sylweddol o arian cyhoeddus a ddyfarnwyd i Cymad i gyflawni prosiectau er budd y cyhoedd. Ymchwiliodd Heddlu Gogledd Cymru i honiadau penodol. Gweithiodd WEFO gyda'r cwmni tan adeg cau rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2000-06 i gadarnhau cymhwyster cymaint o arian Ewropeaidd â phosibl. Cwblhawyd yr adroddiad hwn gennym ar ôl i'r ymchwiliadau hyn ddod i ben yn 2009.

## Bu'n rhaid adennill rhywfaint o'r arian cyhoeddus a gafodd Cymad am nad oedd wedi cydymffurfio ag amodau ariannu, ond nid oedd tystiolaeth iddo gael ei ddefnyddio'n dwyllodrus

**1.8** Ymwelodd WEFO a Swyddfa Archwilio Cymru â'r cwmni sawl gwaith i ymchwilio i'r honiadau a'r defnydd o arian cyhoeddus gan Cymad. Roedd yr ymchwiliadau hyn yn cynnwys:

- **a** adolygiad o systemau rheoli ac ariannol y cwmni;
- **b** adolygiad o gyfrifon a gwybodaeth reoli'r cwmni, gan gynnwys cofnodion bwrdd y cyfarwyddwyr;
- **c** adolygiad o wariant a godwyd ar gerdyn credyd cwmni'r Rheolwr Gyfarwyddwr;
- **ch** hapbrofion o drafodion yn ymwneud â'r contractau a'r grantiau a roddwyd i'r cwmni er mwyn cadarnhau a oeddent yn cydymffurfio ag amodau'r arian;
- **d** adolygiad o ddogfennau a ddaliwyd gan y cyrff ariannu i ategu'r arian a roddwyd ganddynt i Cymad, gan gynnwys asesiad o'r systemau rheoli gan ymgynghorydd allanol a gomisiynwyd gan y WDA yn 2006;
- **dd** cyfweliadau â'r Rheolwr Gyfarwyddwr, y cyn-Swyddog Cyllid (a wnaeth yr honiadau yn erbyn y cwmni), y Swyddog Cyllid a'i olynodd yn 2006, ac archwilydd allanol Cymad;
- **e** cydgysylltu â'r heddlu ynglŷn â'r honiadau hynny yr ymchwiliodd iddynt.

1.9 Gan gydweithio â WEFO, gwnaethom archwilio'r hawliadau ar gyfer pob prif ffrwd ariannu i sicrhau eu bod wedi cael eu hategu'n briodol gan gofnodion o drafodion a'u bod yn cydymffurfio â'r amodau ar yr arian. Canfuwyd bod canlyniadau'r gwaith hwn yn ymrannu'n ddau gategori bras, a gwelwyd llawer llai o wallau neu anghysondebau mewn ffrydiau ariannu nad oeddent yn rhai Ewropeaidd nag a welwyd yn arian yr UE.

### Roedd arian nad oedd yn arian yr UE yn gymharol syml gyda chyfradd isel o wallau neu anghysondebau

1.10 Roedd ffynonellau o arian nad oedd yn arian Ewropeaidd yn seiliedig ar symiau penodol ar y cyfan (er enghraifft, taliad penodol ar gyfer ymweliadau i roi cyngor busnes) neu ad-dalu treuliau penodedig. Roeddent yn weddol syml i'w gweinyddu ac ni welsom unrhyw wallau sylweddol.

1.11 Cafodd ceisiadau am arian grant a roddwyd gan y WDA, BYIG, Bwrdd Croeso Cymru a Chyngor Gwynedd eu hategu'n ddigonol gan ddogfennaeth prosiect ac roeddent yn cydymffurfio â'r amodau a oedd yn eu rheoli. Gwelwyd un eithriad cymharol fach: hawliodd Cymad £2,500 am gostau rheoli ar gontract gwerth £25,000 gyda Bwrdd Croeso Cymru i weinyddu cynllun grant ar gyfer arwyddion Cymraeg mewn siopau. Ni ddarparwyd ar gyfer y tâl rheoli hwn yn y contract. Contract Cyfrwng oedd y ffynhonnell fwyaf o arian i Cymad ar adeg gwneud yr honiadau ac roedd felly yn fwy cymhleth. Canfuwyd na allai Cymad ategu rhai o'i geisiadau'n llawn oherwydd diffyg dogfennaeth briodol, er bod y costau cyffredinol yn ymddangos yn rhesymol.

### Gwelwyd diffygion difrifol yn y ffordd y rheolodd Cymad brosiectau a gafodd arian yr UE

1.12 Dyfarnodd WEFO grantiau i Cymad am chwe phrosiect gwerth cyfanswm o £2.13 miliwn o dan raglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2000-06. Roedd y prosiectau hyn yn dod o dan reolau a osodwyd gan yr Undeb Ewropeaidd ac roeddent yn tueddu i fod yn fwy cymhleth ac ymestynnol na'r amodau ariannu a osodwyd gan sefydliadau'r DU. Bu'n rhaid i Cymad gydymffurfio ag amodau penodol ynglŷn ag arian cyfatebol hefyd (dim ond rhan o gost y prosiect a delir gan yr UE − daw'r gweddill o gyrff eraill), caffael nwyddau a gwasanaethau'n gystadleuol, a chyhoeddusrwydd.

1.13 Ar ôl gwaith helaeth, penderfynodd WEFO ddatgymhwyso £259,000 o'r £900,000 a dalwyd i Cymad am brosiectau'r UE, sef cyfradd gwall o 28 y cant o'r grant a dalwyd, ond roedd o hyd yn llawer llai na'r £459,000 a ddatgymhwyswyd ar y cychwyn yn seiliedig ar y ddogfennaeth wreiddiol a gyflwynodd y cwmni i WEFO. Roedd WEFO yn gallu lleihau'r ffigurau drwy weithio gyda staff Cymad i gadarnhau gwariant prosiect ar ôl yr asesiad cychwynnol.

1.14 Y prif anghysondebau yn y costau a hawliwyd oedd:

- a Ni allai Cymad ddangos bod ei hawliadau am orbenion wedi'u cyfrifo yn unol â'r polisi a osodwyd gan WEFO (£67,975).
- b Nid oedd hawliadau ar gyfer amser staff wedi'u hategu gan daflenni amser yn y fformat a oedd yn ofynnol o dan y rheolau (£46,297). Yn hytrach, cafodd costau staff eu dosrannu i brosiectau unigol yr UE gan ddefnyddio canrannau amcangyfrifedig o'r amser a dreuliwyd.

- **c** Cafodd hawliadau am ffioedd rheoli safonol gwerth £37,145 ar gyfer pedwar prosiect eu cynnwys. Dim ond costau gwirioneddol y gellir eu hawlio ar gyfer prosiectau Ewropeaidd.

- **ch** O ran un prosiect, roedd y swm a dalwyd i gyflenwr yn uwch o lawer na'r swm a ddyfarnwyd yn y llythyr contract heb esboniad boddhaol o'r gwahaniaeth.

- **d** Cafodd taliadau yn ymwneud â phrosiect Uwchgwyrfai eu gwneud drwy gyfrifon banc Arian Byw, un o is-gwmnïau Cymad sydd yn ei berchenogaeth yn llwyr. Er bod yr is-gwmni wedi'i gofrestru at ddibenion TAW ac felly wedi llwyddo i adennill y TAW yn ymwneud â'r taliadau a wnaed, hawliodd Cymad y TAW gan WEFO hefyd, gan olygu bod y cwmni wedi cael budd o ordaliad posibl o tua £13,000 o arian yr UE.

**1.15** Ymhlith yr anghysondebau pwysig eraill roedd:

- **a** Yn achos y cynnig grant mwyaf, Mae'r Rhod yn Troi, gosodwyd amod arbennig a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i holl arian y prosiect (gan gynnwys rhagdaliadau) gael ei adneuo mewn cyfrif banc ar wahân a'i ddefnyddio at ddiben y prosiect hwn yn unig. Er gwaethaf yr amod hwn, defnyddiodd Cymad y rhagdaliad at ddibenion eraill. Ad-dalwyd yr arian i mewn i gyfrif banc ar wahân i ddechrau pan gafwyd cyfarwyddeb gan WEFO i wneud hynny yn 2007, ond mewn arolygiad gan WEFO wedi hynny ar ddiwedd 2008 nodwyd bod yr arian wedi cael ei ddefnyddio at ddibenion eraill unwaith eto, gan fod Cymad wedi'i ddefnyddio i dalu staff. Ar yr ail achlysur, nid oedd gan Cymad yr arian i'w ad-dalu i mewn i'r cyfrif ar wahân, gan arwain at wall o £123,136.

- **b** Dim tystiolaeth o dendro cystadleuol ar gyfer £89,601 o wariant prosiect.

- **c** Nid oedd gan y cwmni ddigon o dystiolaeth i ategu allbynnau'r prosiect y rhoddwyd adroddiad arnynt i WEFO.

- **ch** Nid oes rheswm dros gredu nad oedd y gwaith a hawliwyd ar gyfer pob prosiect wedi cael ei wneud. Fodd bynnag, cafwyd problemau wrth gyflawni'r prosiect Uwchgwyrfai i reoli tir comin â ffensys, gridiau gwartheg a byrddau dehongli. Yn ôl arolygiad allanol yn 2007 roedd y rhan fwyaf o'r gwaith wedi cael ei gwblhau ac roedd y gwaith yn mynd rhagddo i orffen gweddill y gwaith. Fodd bynnag, methwyd â chwblhau rhan gymharol fach o’r prosiect am na ellid goresgyn gwrthwynebiad i leoliad ffensys a mynedfeydd cyn i’r prosiect ddod i ben.

**1.16** Yn y rhan fwyaf o achosion, ymddengys mai diffyg gwybodaeth neu ddealltwriaeth o reoliadau ariannu'r UE oedd yn gyfrifol am y gwallau yn hytrach nag ymgais bwriadol i gael mantais. Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth ar yr olwg gyntaf o ddefnydd twyllodrus o arian cyhoeddus. Penderfynodd yr heddlu ddwyn cyhuddiad mewn perthynas ag un o'r honiadau yr ymchwiliwyd iddynt. Ym mis Mai 2007, cafodd y Rheolwr Gyfarwyddwr ei gollfarnu o gyfrifyddu anghywir mewn perthynas â dwy siec gwerth cyfanswm o £680 a ysgrifennwyd gan Galw, is-gwmni Cymad a chafodd ddirwy o £500. Nid oedd y drosedd hon yn ymwneud yn benodol â'r arian cyhoeddus a gafodd y cwmni.

**1.17** Ar sail y canfyddiadau a amlinellir uchod, deuwn i'r casgliadau canlynol mewn perthynas â phob un o'r honiadau:

- **a** Camddefnyddio sieciau'r is-gwmni: profwyd yr honiad hwn drwy gollfarnu'r cyn-Reolwr Gyfarwyddwr am gyfrifyddu

anghywir. Ni fu effaith ar yr arian cyhoeddus a gafodd y cwmni.

**b** Camddefnyddio cerdyn credyd y cwmni: ni chanfuwyd tystiolaeth gennym i gefnogi'r honiad hwn.

**c** Creu anfoneb ffug ar gyfer un o'r prosiectau, gan alluogi'r cwmni i hawlio arian gan Lywodraeth y Cynulliad nad oedd wedi cael ei wario mewn gwirionedd: nododd WEFO un enghraifft lle roedd cyflenwr wedi cael mwy na'r swm a ddyfarnwyd yn y contract heb esboniad digonol, ond nid oedd prawf bod hyn yn gysylltiedig â chreu anfonebau ffug.

**ch** Gwnaeth y cwmni gyfrifyddu'n amhriodol am TAW, gan ei alluogi unwaith eto i hawlio arian gan Lywodraeth y Cynulliad nad oedd wedi'i wario:
roedd yn amlwg bod rheolaeth wan ar TAW yn ystod 2004 a 2005 a bod anghysondebau mewn balansau rhwng cwmnïau, gan alluogi Cymad o bosibl i hawlio'r elfen TAW o dreuliau nad oedd ganddo hawl i'w chael. Fodd bynnag, awgryma'r amgylchiadau mai rheoli gwael oedd yn gyfrifol am hynny yn hytrach na thwyll.

**d** Hawliadau am gost amser staff nad oedd wedi'i dreulio ar y prosiect perthnasol: gwelodd WEFO sawl enghraifft lle na ellid cadarnhau amser staff a godwyd ar brosiectau. Ymddengys mai diffyg taflenni amser digonol oedd yn gyfrifol am hyn yn bennaf.

**dd** Methiant i gwblhau gwaith ar un prosiect: ni welwyd tystiolaeth bod Cymad wedi hawlio am waith nas gwnaed yn fwriadol. Methwyd â chwblhau dau brosiect:
Mae'r Rhod yn Troi, oherwydd nad oedd wedi cyrraedd y cam adeiladu pan ataliwyd taliadau; ac Uwchgwyrfrai, am fod anawsterau cynllunio yn golygu na chafodd rhywfaint o'r gwaith byth ei gwblhau.

**e** Rheoli a rheolaethau ariannol llac yn gyffredinol: cytunwn mai rheoli a rheolaethau ariannol gwan hyd at 2006 oedd yn bennaf cyfrifol am y problemau a wynebai Cymad wrth reoli arian cyhoeddus (gweler isod).

## Cafwyd gwallau yn bennaf oherwydd rheolaeth ariannol gwan yn Cymad

**1.18** Ymddengys nad oedd Cymad yn deall rheolau llym cronfeydd yr UE yn llawn ac ni allai eu rhoi ar waith. Newidiodd y rheolau ynglŷn â chodi am orbenion i brosiectau ar ôl i'r prosiectau gael eu cymeradwyo, a achosodd ragor o anawsterau.

**1.19** Roedd Cymad yn tueddu i orhawlio am orbenion a threuliau rheoli. Mae hyn yn amlygu problem gyffredinol mewn sefydliadau sy'n dibynnu i raddau helaeth ar arian cyhoeddus sy'n gyfyngedig i brosiectau penodol. Os yw'r amodau ariannu yn ei gwneud yn ofynnol i'r arian gael ei wario i dalu am gostau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'r prosiect yn unig, bydd yn anodd i sefydliad dalu am ei holl orbenion corfforaethol. Gellir osgoi'r broblem hon os oes gan y cwmni ffynonellau ariannu eraill, llai cyfyngol (er enghraifft, o weithgareddau masnachol neu arian craidd cyhoeddus) neu os caniateir iddo wneud elw ar gontractau, er enghraifft drwy gaffael cystadleuol yn hytrach nag arian grant. Mae rhaglenni 2007-2013 yr UE yn gwneud defnydd cynyddol o gaffael cystadleuol yn hytrach nag arian grant wrth ddosbarthu'r Cronfeydd Strwythurol i ddarparwyr.

1.20 Roedd systemau a rheolaethau ariannol Cymad yn wan. Rheolwyr prosiectau oedd yn bennaf cyfrifol am gadw cofnodion hanfodol a pharatoi gwybodaeth ariannol i'w chynnwys mewn ceisiadau am grant ar gyfer eu prosiectau. Ni chofnodwyd y wybodaeth hon gan swyddogion prosiect drwy ddefnyddio'r un system, ac nid oedd ganddynt weithdrefn fanwl i'w dilyn. Canfu WEFO fod y wybodaeth a gadwyd i ategu ceisiadau yn anhrefnus ac yn ddigyswllt.

1.21 Roedd rheoli ariannol ar y lefel gorfforaethol yn wan hefyd mewn sawl ffordd:

a Fel cwmni bach, dibynnodd Cymad yn drwm ar ei swyddog cyllid i weithredu'r systemau ariannol. Fodd bynnag, nid oedd rheolaethau i sicrhau bod gan y cwmni y sgiliau, gallu a'r adnoddau ariannol a oedd eu hangen arno, ac i ganfod unrhyw wendidau a'u hunioni mewn ffordd amserol.

b Ni chynhaliwyd cysoniadau banc yn rheolaidd, felly nid oedd y cwmni'n gwybod a oedd ei falansau banc a'i gofnodion cyfrifyddu yn cyfateb i'w gilydd. Mae cysoniadau banc yn rheolaeth hanfodol mewn unrhyw fusnes. Roeddent yn arbennig o bwysig yn Cymad am fod gan y grŵp sawl cyfrif banc, ac roedd yn talu anfonebau ar gyfer un prosiect neu gwmni o gyfrif arall os nad oedd digon o arian ar gael yn y cyfrif cywir.

c Penodwyd Swyddog Cyllid newydd yn 2006. Nododd wallau mewn ffurflenni TAW a balansau rhwng cwmnïau, a arweiniodd at gamddatganiadau yng nghyfrifon Cymad a'i is-gwmni Galw yn 2004. Canfu hefyd rai anfonebau a oedd wedi cael eu ffeilio ond nid eu cofnodi yn y system gyfrifyddu.

ch Nid oedd cyfrifon rheoli yn cael eu paratoi'n rheolaidd i'r grŵp cyfan. Mae cyfrifon rheoli yn galluogi'r busnes i weld sut mae'n perfformio ac i ystyried ei sefyllfa ariannol, a chymryd camau priodol, er enghraifft i fynd i'r afael â phroblemau llif arian neu amrywiadau o'u cymharu â'r gyllideb.

d Methodd y Bwrdd â goruchwylio'r busnes yn ddigonol. Gan na chafodd gyfrifon rheoli rheolaidd, nid oedd yn ymwybodol o iechyd ariannol cyffredinol cwmni yr oedd ganddo broblemau o ran hylifedd ac a oedd yn tyfu'n gyflym, risgiau allweddol yr oedd angen eu rheoli'n ofalus. Nid oedd y Swyddog Cyllid fel arfer yn mynychu cyfarfodydd y bwrdd, ac ni fu dim cyfarfodydd rhwng mis Gorffennaf a mis Tachwedd 2005. Nid oedd cofnodion cyfarfodydd y bwrdd yn cynnwys trafodaethau neu benderfyniadau pwysig yn ddigon manwl, felly nid yw'n amlwg a ymdriniwyd yn briodol â gwendidau ariannol (er enghraifft, mewn perthynas â safon y cofnodion cyfrifyddu) a ddygwyd i sylw'r Bwrdd.

## Ar y cyfan, llwyddodd Cymad i gyflawni ei brosiectau yn effeithiol a dangosodd gwerthusiad fod prosiect Cyfrwng yn llwyddiant

1.22 Llwyddodd Cymad i gyflawni'r rhan fwyaf o'i brosiectau a'i gontractau'n effeithiol. Roedd y cyrff ariannu yn fodlon ar y cyfan ar gynnydd a pherfformiad y prosiectau a'r contractau, er bod peth oedi cyn sefydlu prosiectau neu roi gwybodaeth fonitro.

1.23 Llwyddodd Cymad i gyflawni'r rhan fwyaf o'r hyn a ragwelwyd yn ei brosiectau a ariannwyd gan yr UE, gan gyflawni neu ragori ar 10 o'r 16 o dargedau ar gyfer pump o'r chwe phrosiect a ariannwyd yn 2006 (Ffigur 2). Fodd bynnag, mae angen dehongli'r ffigurau hyn yn ofalus, gan nad yw rhai o'r allbynnau a

## Ffigur 2 – Allbynnau a gyflawnwyd gan brosiectau a ariannwyd gan yr UE ac a noddwyd gan Cymad

| Allbwn | Targed | Gwir | % a gyflawnwyd |
|---|---|---|---|
| **Swyddi a grëwyd ac a ddiogelwyd** | | | |
| Nifer y swyddi uniongyrchol newydd gros | 8 | 8 | 100% |
| Nifer y swyddi anuniongyrchol newydd gros | 6.5 | 6.5 | 100% |
| Nifer y swyddi newydd gros mewn prosiectau a mentrau cymunedol | 1.5 | 1.5 | 100% |
| Nifer y swyddi gros a ddiogelwyd | 15.0 | 13.0 | 87% |
| **Cymorth i fusnesau** | | | |
| Nifer y busnesau bach a chanolig newydd a gafodd gymorth a chyngor | 100 | 117 | 117% |
| Nifer y busnesau bach a chanolig a fodolai eisoes a gafodd gymorth a chyngor | 500 | 717 | 149% |
| **Ynni adnewyddadwy** | | | |
| £000 cynnydd yn nhrosiant cwmnïau a gafodd gymorth | 1,820 | 0 | 0% |
| Nifer y modelau enghreifftiol a ddatblygwyd ar gyfer ynni glân | 1 | 0 | 0% |
| Prosiectau a gynorthwywyd a gafodd eu cyflwyno yn y sector preifat | 10 | 0 | 0% |
| **Datblygu cymunedol** | | | |
| Nifer y grwpiau cymunedol a gynorthwywyd | 228 | 146 | 64% |
| Nifer y partneriaethau rhyngasiantaethol/mentrau adfywio a gynorthwywyd | 21 | 19 | 90% |
| Nifer yr arfarniadau amgylcheddol cymunedol a gynhaliwyd | 5 | 5 | 100% |
| Nifer y prosiectau gwella amgylcheddol cymunedol a gynorthwywyd | 15 | 15 | 100% |
| Nifer y prosiectau a arweinir gan y gymuned a gynorthwywyd | 30 | 33 | 110% |
| **Mynediad i'r amgylchedd ac i'r cyhoedd** | | | |
| Nifer y prosiectau rheoli mynediad | 12 | 12 | 100% |
| Nifer y cilometrau o fynediad rheoledig | 36 | 24 | 68% |
| Nifer y prosiectau rheoli tir | 12 | 12 | 100% |
| Nifer yr hectarau a ddygwyd o dan reolaeth gynaliadwy | 1,522 | 1,483 | 97% |
| Nifer y cilometrau o ffin draddodiadol a grëwyd neu a adnewyddwyd | 0.2 | 0 | 0% |

*Ffynhonnell: WEFO*

nodwyd wedi'u cefnogi gan dystiolaeth ddogfennol. Methodd y prif brosiect, Mae'r Rhod yn Troi, â chyflawni'r un allbwn a ragwelwyd am nad oedd unrhyw waith cyfalaf wedi digwydd pan ataliwyd y taliadau i'r cwmni ym mis Hydref 2006. Fodd bynnag, gwnaed cryn dipyn o waith ar astudiaethau dichonoldeb ar gyfer y prosiectau ynni trydan dŵr yr oedd y prosiect wedi'i gynllunio i'w cyflawni. Fel arfer mae cyfnod rhagbaratoi hir cyn i'r rhan fwyaf o'r gwaith adeiladu gael ei wneud ar brosiectau cyfalaf o'r fath. Gwariodd y pum prosiect arall 67 y cant o'u cyllidebau ar ôl didynnu costau anghymwys.

1.24 Gwerthuswyd contract Cyfrwng Cymraeg i Oedolion gan Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant yn 2006 fel rhan o werthusiad ehangach o'i Gronfa Her Dysgu. Prosiect peilot oedd y contract i wella gallu darparwyr Cymraeg i Oedolion er mwyn cyflawni mewn ffordd anhraddodiadol drwy ddarparu cyrsiau hygyrch newydd, wedi'u cynllunio mewn ffordd a fyddai'n arwain at rugldер. Gwerthuswyd contract Cyfrwng Cymraeg i Oedolion gan Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant yn 2006 fel rhan o werthusiad ehangach o'i Gronfa Her Dysgu. Prosiect peilot oedd y contract i wella gallu darparwyr Cymraeg i Oedolion er mwyn cyflawni mewn ffordd anhraddodiadol drwy ddarparu cyrsiau hygyrch newydd, wedi'u cynllunio mewn ffordd a fyddai'n arwain at rugldеr. Daeth y gwerthusiad i'r casgliad bod y prosiect wedi bod yn llwyddiant ac wedi esgor ar fuddiannau mawr o ran hyfforddiant iaith Gymraeg i oedolion. Roedd y prosiect wedi rhagori ar bedwar o'i bum targed, wedi cael ei reoli'n dda o ddydd i ddydd ac wedi dangos y gallai'r dulliau arloesi a dreialwyd yn y prosiect fod yn llwyddiannus o ran creu'r galw am ddysgu Cymraeg i Oedolion. Bu peth oedi cyn sefydlu'r prosiect, a chyfnod segur bach am fod rheolwr y prosiect wedi newid, ond nid amharodd y rhain ar gyflawniadau cyffredinol y prosiect.

## Arweiniodd tranc Cymad at leihad yn y nifer o swyddi yn y cwmni ac at fethu â chwblhau rhai prosiectau

1.27 Ataliwyd taliadau i Cymad gan WEFO ym mis Hydref 2006, a gostyngodd incwm y cwmni o brosiectau a ariannwyd yn gyhoeddus yn sylweddol am nad oedd yn fusnes sector cyhoeddus mwyach. Roedd yr arian hwn yn hanfodol i fodolaeth y cwmni ac o'i dynnu'n ôl nid oedd yn hyfyw mwyach. Roedd cost ymgyfreitha cyflogaeth a cholledion ar fuddsoddiadau mewn eiddo wedi ychwanegu at y straen ariannol ar y cwmni. Ar 7 Awst 2009 cafodd y cwmni ei ddiddymu o dan y drefn diddymu gwirfoddol credydwyr. Dengys y Datganiad o Faterion fod dyled o £556,000 i gredydwyr, yr oedd £512,000 o'r swm hwnnw (92 y cant) yn ddyledus i gyrff cyhoeddus (£201,000 ar gyfer treth ac Yswiriant Gwladol nas talwyd a £311,000 i Lywodraeth y Cynulliad yn bennaf am arian grant a adenillwyd gan WEFO) a rhent am safle'r cwmni. Nid yw'n amlwg ar hyn o bryd faint o arian a gaiff credydwyr yn sgîl diddymu'r cwmni. Fodd bynnag, nid yw Cymad yn darparu gwasanaethau a ariennir yn gyhoeddus yng Ngogledd Cymru mwyach ac nid yw'r cwmni'n cyflogi unrhyw aelodau parhaol o staff mwyach, er bod yr is-gwmni Galw yn cyflogi tua 25 o bobl yn ei fusnes canolfan alwadau.

1.28 Yn sgîl atal taliadau methodd Cymad â chwblhau dau o'i brosiectau a ariannwyd gan yr UE: Mae'r Rhod yn Troi ac Uwchgwyrfai. Roedd Mae'r Rhod yn Troi yn cynnal astudiaethau dichonoldeb ar gyfer cynlluniau trydan dŵr bach pan ataliwyd y taliadau yn 2006, ac ni chyflawnwyd yr un cynllun. Ni allai

WEFO ddod o hyd i noddwr prosiect yn lle Cymad cyn i raglenni Ewropeaidd 2000-06 gau. Codwyd rhai problemau hefyd o ran cwblhau Uwchgwyrfai (paragraff 34), ond unwaith eto roedd trwch y prosiect wedi'i gyflawni yn ôl y bwriad.

**1.29** Mae'r effaith ar brosiectau nad ydynt yn rhai Ewropeaidd yn llai sylweddol. Cwblhaodd Cymad unrhyw waith oedd heb ei wneud a throsglwyddwyd unrhyw gontractau cyfredol i ddarparwyr eraill.

**1.30** Roedd WEFO yn ymwybodol o ganol 2006 na fyddai Cymad yn gallu cwblhau rhai o'i brosiectau yn ôl pob tebyg a bod risg y byddai swm sylweddol o arian yr UE yn cael ei adennill oddi wrth y cwmni. Fel rhan o'i gweithdrefn rheoli risg a chynllunio ariannol arferol, addasodd WEFO ei chynlluniau ariannu i adlewyrchu tanwariant posibl ar brosiectau a gynhaliwyd gan Cymad (ynghyd â llawer o noddwyr prosiect eraill) a rhyddhaodd yr arian ar gyfer prosiectau amgen. O ganlyniad, ni chred WEFO fod y tanwariant yn Cymad wedi peri i Gymru golli unrhyw arian gan yr UE, er y bydd unrhyw ran o'r £259,000 a adhawliwyd oddi wrth y cwmni ac na chaiff ei ddychwelyd gan y diddymwr yn golled i'r trethdalwr.

# Rhan 2 - Roedd contractau ariannu yn gadarn ar y cyfan a chymerodd y cyrff cyhoeddus gamau yn ddi-oed pan ddaeth problemau i'r golwg, ond oherwydd rhai gwendidau gweinyddol ni chanfuwyd gwallau gan Cymad nes i'r honiadau gael eu gwneud

2.1 Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2003 hyd at 31 Mawrth 2008, cafodd Cymad £3.6 miliwn o arian cyhoeddus. Cafodd tua £2.9 miliwn o'r swm hwn cyn 31 Mawrth 2006, a chyn i'r honiadau bod y cwmni wedi camddefnyddio arian cyhoeddus gael eu codi gyda'r Archwilydd Cyffredinol. Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried pa mor dda roedd y cyrff ariannu wedi rheoli'r arian cyhoeddus a ddarparwyd ganddynt i Cymad, ac a oedd ganddynt ddigon o gamau diogelu i osgoi colled neu gamddefnydd.

## Roedd y meini prawf a'r gofynion eraill a osodwyd ar Cymad gan y cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gadarn ar y cyfan ond gellid eu hatgyfnerthu mewn rhai ffyrdd

### Roedd Cymad yn gymwys i gael arian o dan bob un o gynlluniau grant y cyrff cyhoeddus

2.2 Er mwyn bod yn gymwys i gael arian grant gan bob un o'r cyrff cyhoeddus, roedd yn ofynnol i Cymad gyflwyno ceisiadau am gymorth grant gan ddangos iddo fodloni meini prawf cymhwyso ar gyfer y cynllun a chytuno i gydymffurfio â thelerau ac amodau ariannu. O'n hadolygiad o ddogfennau a roddwyd i Cymad gan y cyrff cyhoeddus amrywiol, rydym yn fodlon, ar adeg y gymeradwyaeth, fod Cymad wedi bodloni'r meini prawf cymhwyso ar gyfer yr holl gynlluniau grant neu'r contractau y cafodd arian oddi tanynt wedi hynny. Fodd bynnag, nodwyd rhai meysydd gennym lle y gellid atgyfnerthu'r meini prawf a'r trefniadau cytundebol a nodwyd gan y cyrff cyhoeddus sy'n rheoli'r cynlluniau grant amrywiol.

### Nid oedd yr un trefniant ariannu yn ei gwneud yn ofynnol i Cymad ddatgelu bod un o uwch swyddogion y cwmni yn cael ei amau o ymgymryd â gweithgarwch twyllodrus

2.3 Nid oedd yr un ariannwr wedi gosod telerau ac amodau a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i dderbynnydd grant neu gontractwr ddatgelu'r ffaith os oedd un o'r uwch swyddogion, sydd â mynediad at arian cyhoeddus, yn cael ei wahardd dros dro neu'i ganfod yn euog o drosedd. Parhaodd Cymad i gael arian gan rai o'r cyrff cyhoeddus ar ôl i'w Reolwr Gyfarwyddwr gael ei gyhuddo o gyfrifyddu anghywir yn 2006.

2.4 Er mai taliadau terfynol bach ar gynlluniau grant a fu'n mynd rhagddynt dros gyfnod o amser oedd y rhan fwyaf o'r arian hwn, gwnaeth Adran Materion Gwledig a Chynaliadwyedd Llywodraeth y Cynulliad daliad grant gwerth £30,000 o ran prosiect newydd ym mis Rhagfyr 2007. Roedd WEFO (sydd hefyd yn rhan o Lywodraeth y Cynulliad) wedi atal taliadau i'r Cwmni ym mis Hydref 2006 yn sgîl ymchwiliad i honiadau ynglŷn â chamddefnydd Cymad o arian cyhoeddus.

2.5 Cymeradwywyd y prosiect newydd yn wreiddiol gan yr Adran Materion Gwledig a Chynaliadwyedd ym mis Tachwedd 2005, cyn yr honiadau o gamddefnydd o arian cyhoeddus. Ond, nid oedd y telerau ac amodau ariannu yn ei gwneud yn ofynnol i Cymad hysbysu'r Adran os oedd amheuaeth bod uwch swyddogion y cwmni yn ymgymryd â gweithgarwch twyllodrus. Er bod hyn wedi cael sylw yn y wasg, dywedodd staff yn yr Adran Materion Gwledig a Chynaliadwyedd wrthym nad oeddent yn ymwybodol o'r achos yn ymwneud â Rheolwr Gyfarwyddwr y cwmni ac nad oeddent, felly, wedi ystyried unrhyw gamau diogelu ychwanegol o ran eu trefniant ariannu gyda Cymad.

2.6 Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod unrhyw symiau a dalwyd i Cymad ar ôl Mai 2007 yn ymwneud â gwariant afreolaidd. Fodd bynnag, mae cyfrifoldeb ar gyrff cyhoeddus i leihau'r risg o ddefnydd twyllodrus o arian cyhoeddus. Wrth wneud hynny, dylent sicrhau y datgelir gwybodaeth lle mae amheuaeth neu dystiolaeth bod swyddogion cyrff sy'n cael grant yn ymgymryd â gweithgarwch twyllodrus, ar y cam gwneud cais am grant ac ar sail barhaus. Dylai datgeliadau o'r fath arwain at ailasesu'r risg i arian cyhoeddus fel y gellir cymryd camau priodol i liniaru'r risg, er enghraifft drwy fonitro manylach.

2.7 Nodwn fod WEFO bellach wedi gosod cymal safonol ym mhob llythyr cymeradwyo grant ar gyfer rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2007-2013 sy'n ei gwneud yn ofynnol i dderbynyddion hysbysu WEFO ar unwaith, ac yn ysgrifenedig, os oes amheuaeth bod unrhyw un o'i swyddogion, sydd â mynediad at arian cyhoeddus, yn ymgymryd â gweithgarwch twyllodrus. Argymhellwn fod cyrff cyhoeddus eraill yn gwneud yr un peth.

## Roedd meini prawf ariannu Bwrdd Croeso Cymru yn aneglur

2.8 Nid oedd telerau ac amodau grant Bwrdd Croeso Cymru yn eglur o ran a ddylid bod wedi talu arian ymlaen llawn neu'n ôl-ddyledus. Mae'r telerau yn awgrymu y dylai £25,000 o arian ar gyfer y Cynllun Arwyddion Cymraeg fod wedi'i dderbyn mewn ôl-ddyledion, ac yn dilyn tystiolaeth bod gwaith wedi mynd rhagddo, ond cafodd Cymad £25,000 ymlaen llaw bob blwyddyn. At hynny, cadwodd y cwmni 10 y cant o gyfanswm yr arian a ragdalwyd gan Fwrdd Croeso Cymru ar gyfer gweinyddu'r cynllun, er gwaethaf y ffaith nad oedd telerau ac amodau'r grant yn cyfeirio at gadw unrhyw symiau at y diben hwn.

## Roedd rhai mân wendidau yn nhelerau ac amodau contract Cyfrwng

2.9 Roedd contract Cyfrwng yn gadarn ar y cyfan gan alluogi Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant i reoli'r prosiect yn effeithiol. Fodd bynnag, ni chyfeiriodd y telerau a'r amodau at y trefniadau ariannu yn ymwneud ag absenoldeb mamolaeth gan gyflogeion Cymad. Er nad oedd y contract yn sôn am y mater, ariannodd Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant aelod o staff cyflenwi ar ran y swyddog prosiect pan aeth ar ei habsenoldeb mamolaeth ac ad-dalodd Cymad am y tâl mamolaeth. A methodd y contract nodi trefniadau ar gyfer penodi staff yn lle staff prosiect a adawodd y cwmni, felly na allai Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant ddibynnu ar y contract i sicrhau bod rhywun a oedd yn meddu ar yr un sgiliau a phrofiad yn cael ei benodi’n fuan yn lle unrhyw reolwr a oedd yn gadael.

2.10 Wrth lunio telerau ac amodau contractau mae'n bwysig bod cyrff cyhoeddus yn glir o ran y trefniadau ar gyfer staff cyflenwi yn lle aelodau allweddol o staff sy'n absennol am gyfnod hir oherwydd absenoldeb mamolaeth neu salwch. Mae hyn yn angenrheidiol i sicrhau bod modd dod o hyd i staff addas yn gyflym ac i osgoi costau ychwanegol megis tâl mamolaeth sy'n uwch na'r symiau statudol.

## Oherwydd gwendidau gweinyddol methodd rhai cyrff cyhoeddus â chanfod gwallau gan Cymad nes i'r honiadau gael eu gwneud, ond cymerwyd camau yn ddi-oed i ymdrin â'r problemau ar ôl iddynt ddod i'r golwg

2.11 Mae cyrff cyhoeddus yn gyfrifol am weinyddu arian cyhoeddus er mwyn sicrhau bod y risg o wallau neu gamddefnydd gan y derbynnydd mor fach â phosibl yn ymarferol. Fel rhan o'r archwiliad hwn, ystyriwyd a oedd y cyrff cyhoeddus a roddodd arian i Cymad:

- **a** wedi asesu hyfywedd ariannol y cwmni pan wnaeth gais am ariannu;
- **b** wedi cydymffurfio â'u gweithdrefnau eu hunain wrth wneud taliadau;
- **c** wedi gwneud trefniadau digonol i gadarnhau bod y symiau a hawliwyd yn gywir;
- **ch** wedi cymryd camau priodol pan ddaeth y problemau yn y cwmni i'r golwg;
- **d** wedi cydweithio ac wedi rhannu gwybodaeth i leihau risg ac osgoi dyblygu gwaith.

### Cynhaliodd WEFO arfarniadau ariannol a nododd wendidau mewn rheolaethau ariannol

2.12 Mae gweithdrefnau arfarnu grantiau WEFO yn cynnwys gofyniad i noddwyr prosiectau, fel Cymad, gyflwyno eu cyfrifon archwiliedig am y tair blynedd diwethaf i ategu eu cais am gymorth grant. Dim ond pan fydd wedi cadarnhau bod noddwr prosiect yn hyfyw yn ariannol a bod y risg o golli arian cyhoeddus yn fach y dylai WEFO gymeradwyo cymorth grant. Mae gan WEFO dîm arfarnu ariannol i asesu cynlluniau prosiect ymgeiswyr am grant a hyfywedd ariannol cwmnïau preifat sy'n gwneud cais am grant. Yn ystod rhaglenni 2005-06, roedd yn arferol i swyddogion prosiect yn WEFO gyfeirio cynlluniau busnes a cheisiadau am grant i gyrff preifat a gwirfoddol i'r tîm arfarnu ariannol am gyngor.

2.13 Cwmni bach oedd Cymad a ddibynnai ar arian grant gan gyrff cyhoeddus am ei fodolaeth. Ar ddechrau rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2000-06, roedd yn ceisio arallgyfeirio i fentrau masnachol, gan gynnwys caffael eiddo a gafodd eu hariannu drwy fenthyciadau banc yn bennaf. Fodd bynnag, nid oedd gan y cwmni gronfeydd arian parod sylweddol ar gyfer unrhyw wariant annisgwyl neu ddiffygion mewn incwm, gan gynnwys oedi cyn cael incwm grant neu ad-dalu grant os na fodlonwyd amodau ariannu. Roedd llif arian parod yn dynn, a byddai gostyngiad mewn incwm prosiect wedi ei gwneud yn anos i'r cwmni dalu ei gostau gorbenion. Golygai'r ffactorau hyn fod y cwmni'n fregus yn ariannol a bod rheoli ariannol tynnu yn hanfodol i'r cwmni barhau fel busnes byw. Roedd hyfywedd y cwmni mewn perygl o newid dros amser yn dibynnu ar hynt ei amrywiol brosiectau a gweithrediadau masnachol.

2.14 Cynhaliodd WEFO arfarniadau ariannol o ran tri o’i chwe phrosiect gan ddechrau ym mis Rhagfyr 2004 ar gyfer prosiect Uwchgwyrfai ac unwaith eto rhwng mis Awst a mis Rhagfyr 2003 o ran prosiect Mae’r Rhod yn Troi. Llwyddodd yr arfarniadau hyn i nodi risgiau i hyfywedd Cymad ac argymhellodd arfarniad Mae’r Rhod yn Troi amodau priodol yn llythyr cynnig grant y prosiect. Roedd yn amlwg hefyd o’r arfarniadau nad oedd y cwmni yn paratoi cyfrifon rheoli ac felly ni allai ddarparu gwybodaeth ariannol arall y gofynnwyd amdani, gan gynnwys cyfrifon ariannol y cwmni, yn amserol. Roedd y diffyg hwn yn awgrymu rheolaeth ariannol wan a mwy o risg i hyfywedd ariannol. O edrych yn ôl dylai gwendidau o’r fath fod wedi ysgogi gwaith monitro manylach ar systemau ariannol y cwmni neu gymorth i’r cwmni er mwyn iddo sefydlu gweithdrefnau priodol, ond ni ddigwyddodd hynny. Ers i grantiau Cymad gael eu cymeradwyo mae WEFO wedi cyflwyno ymweliadau cychwynnol ar gyfer pob noddwr prosiect. Mae staff WEFO yn ymweld â noddwyr prosiectau i adolygu eu systemau’n fanwl a rhoi cyngor a chymorth yn ôl yr angen. Cynhelir ymweliadau dilynol rheolaidd, yn seiliedig ar asesiad risg.

## Roedd rhagdaliadau gan WEFO yn wynebu risg arbennig oherwydd rheolaethau ariannol gwael a phroblemau hyfywedd Cymad

2.15 O dan delerau ac amodau ariannu Bwrdd yr Iaith Gymraeg, yr hen Fwrdd Croeso a WEFO, bu modd talu Cymad ymlaen llaw. Yn achos Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Bwrdd Croeso Cymru roedd y rhagdaliadau hyn ar gyfer symiau cymharol fach o arian bob blwyddyn. Fodd bynnag, ym mis Ebrill 2005, talodd WEFO £123,000 ymlaen llaw i Cymad mewn perthynas â'r prosiect Mae'r Rhod yn Troi. Nododd yr amodau a oedd ynghlwm wrth y grant fod yn rhaid i'r blaenswm gael ei glustnodi a'i nodi ar wahân yng nghyfrifon blynyddol y cwmni.

2.16 Roedd rhagdaliadau i sefydliadau gwirfoddol a phreifat nid-er-elw yn cydymffurfio'n llawn â thelerau ac amodau ariannu'r UE a WEFO yn ystod rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2000-06 yr UE. Yn dilyn adolygiad WEFO o'r cwmni yn 2006, daeth yn amlwg nad oedd Cymad wedi cydymffurfio â'r gofyniad i nodi rhagdaliadau ar gyfer y prosiect Mae'r Rhod yn Troi yn eu cyfrifon ar wahân a bod yr arian wedi cael ei ddefnyddio i ariannu gwariant arall gan y cwmni. Er i WEFO atal taliadau ar gyfer y prosiect penodol hwn ar unwaith, ni lwyddodd i adennill y rhagdaliad oddi wrth Cymad yn llawn yn y pen draw.

2.17 Gall rhagdaliadau gan gyrff cyhoeddus fod yn briodol o ran sefydliadau gwirfoddol bach neu sefydliadau nid-er-elw sy'n wynebu anawsterau llif arian ac a fyddai fel arall yn dibynnu ar fenthyciadau banc a fyddai'n ddrud neu'n anodd eu trefnu. Fodd bynnag, cyfyd risgiau cynyddol o arian o'r fath o ran methiant i gyflawni'r prosiect neu gamddefnyddio arian cyhoeddus. Mae angen i gyrff cyhoeddus reoli'r risgiau hyn yn ofalus, gan sicrhau ar sail unigol fod arian o'r fath yn cael ei fonitro'n gadarn ac yn adlewyrchu'r risg sy'n deillio o'r derbynnydd. Yn achos Cymad, mae'n amlwg y byddai angen rhagdaliadau arno am nad oedd ganddo gronfeydd arian parod wrth gefn, ond roedd yr arian hwn yn risg uchel oherwydd systemau ariannol a'r anawsterau o ran llif arian yn y cwmni.

## Ymdriniodd y cyrff ariannu â cheisiadau am daliadau yn briodol, er bod rhai gwendidau ym mhrosesau monitro ariannol Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant

2.18 O dan delerau ac amodau ariannu pob un o'r cyrff cyhoeddus, roedd yn ofynnol i Cymad gyflwyno ceisiadau am daliadau yn rheolaidd yn ystod oes y prosiect. Cynhaliwyd gwiriadau mewnol o'r ceisiadau hyn gan bob corff

cyhoeddus, cyn cael eu cymeradwyo ar gyfer taliad. O'n hadolygiad o sampl o geisiadau a gyflwynwyd gan Cymad, rydym yn fodlon mai dim ond ar ôl i geisiadau gael eu hawdurdodi'n fewnol y gwnaeth yr arianwyr dalu.

**2.19** Rhwng 1 Ebrill 2003 a 31 Mawrth 2008, cafodd Cymad £973,000 gan Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant gynt o ran contract Cyfrwng. Nododd y contract gwreiddiol y byddai Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant yn talu hyd at £989,000 o gyfanswm gwariant cymeradwy o £1,448,000 i'r contractwr neu 75 y cant o gyfanswm costau'r prosiect, pa un bynnag oedd yr isaf. Byddai gweddill y gwariant yn cynnwys arian cyfatebol gan golegau eraill, a fyddai'n ariannu hanner cost cyflogau'r trefnwyr a oedd yn diwtoriaid.

**2.20** O'n hadolygiad o'r gwariant a hawliwyd gan Cymad o dan gontract Cyfrwng, nodwyd bod dangosyddion y prosiect yn cael eu monitro'n ofalus, er enghraifft, nifer y galwadau a wnaed i'r llinell wybodaeth a weithredwyd gan Cymad, a hynt y prosiect yn gyffredinol. Fodd bynnag, ni chafodd costau ac arian cyfatebol y prosiect eu monitro'n fanwl:

- **a** Ni roddodd Cymad fanylion am arian cyfatebol a ddarparwyd gan y colegau mewn gwirionedd wrth baratoi anfonebau i'w talu gan Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (yn unol â'r contract) am nad oedd y wybodaeth hon bob amser ar gael i Cymad pan oedd yn paratoi anfonebau. Felly ni allai Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant gadarnhau a oedd ei gyfraniad yn llai na 75 y cant o gyfanswm costau'r prosiect fel y'i nodwyd yn y contract, ac ni chynhaliwyd ymarfer cysoni terfynol i gadarnhau bod yr amod hwn wedi cael ei fodloni.
- **b** Nid edrychodd Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant ar y dystiolaeth ategol ar gyfer holl wariant y prosiect i gadarnhau bod Cymad wedi mynd i'r symiau a oedd yn eu hawlio mewn gwirionedd. O dan y contract roedd yn rhaid cynnal archwiliad allanol ar ddiwedd y prosiect i gadarnhau gwariant a gofnodwyd, ond ni wnaed hynny.

**2.21** Fel y nodwyd yn Rhan 1, nid oedd gan Cymad ddogfennau ategol ar gyfer rhai eitemau o'i wariant ar gontract Cyfrwng. Oherwydd prinder dogfennau ategol gan Cymad, ni allem feintoli'n union faint o'r taliadau a wnaed gan Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant yn ystod cyfnod y contract oedd yn anghywir. Ni chanfu Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant y gwallau posibl am iddo fethu â gorfodi'r darpariaethau cytundebol ar gyfer dogfennau ategol neu archwiliad ar ôl cwblhau prosiect yn llawn.

## Methodd trefniadau monitro ac archwilio ag amlygu bylchau yn y ddogfennaeth a oedd gan Cymad i ategu gwariant a hawliwyd

**2.22** Mae'n bwysig bod gan gyrff cyhoeddus drefniadau i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio at y dibenion a fwriadwyd. Gallant geisio sicrwydd mewn nifer o ffyrdd. Ar gyfer cynlluniau grant risg isel neu werth isel, gallai corff cyhoeddus ddibynnu ar dystysgrif gan uwch swyddog y corff sy'n cael y grant yn nodi i'r arian gael ei ddefnyddio at y dibenion a fwriadwyd. Mewn achosion eraill, bydd y corff cyhoeddus yn cyflawni ymweliadau monitro â'r corff sy'n cael y grant neu'n dibynnu ar dystysgrif archwilio gan gyfrifydd annibynnol.

### Methodd tystysgrifau archwilio a gafwyd gan WEFO bob blwyddyn ag amlygu gwendidau yn y dogfennau a oedd gan Cymad i ategu gwariant prosiect yr UE

**2.23** Ac eithrio'r arian Ewropeaidd, ni nododd telerau nac amodau'r cynlluniau grant amrywiol fod angen trefnu ymweliadau monitro â Cymad. Er mwyn sicrhau bod Cronfeydd Ewropeaidd wedi eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd, roedd yn ofynnol i WEFO gael tystysgrifau archwilio blynyddol o ran y gwariant a hawliwyd gan dderbynyddion y grant. Cynhaliwyd ymweliadau monitro hefyd â sampl o dderbynyddion grant mewn cydymffurfiaeth â'r rheoliadau Ewropeaidd sy'n berthnasol i raglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE ar gyfer 2000-06.

**2.24** Mae'r gofyniad i gynnal archwiliad allanol yn rheolaeth werthfawr sydd wedi amlygu gwendidau mewn llawer o geisiadau eraill a gyflwynwyd i WEFO gan dderbynyddion grant. Fodd bynnag, er bod diffygion amlwg yn y dogfennau a ddaliwyd i ategu'r gwariant a hawliwyd gan Cymad cyn ymweliad cyntaf WEFO â'r cwmni ym mis Tachwedd 2006, ni thynnwyd sylw at y diffygion hyn yn y tystysgrifau archwilio a gafodd WEFO bob blwyddyn, a dibynnodd WEFO arnynt i barhau i wneud taliadau i'r cwmni. Cafodd WEFO dystysgrifau archwilio diamod bob blwyddyn ar gyfer pob un o brosiectau Cymad a ariannwyd gan WEFO, er i WEFO ganfod wedyn bod llawer o'r gwariant hwn yn anghymwys i gael cymorth yr UE. Mae'r sefyllfa hon yn amlygu gwendid posibl yn system rheolaethau WEFO dros wariant prosiectau, gan fod gwerth y tystysgrifau archwilio yn dibynnu ar gadernid yr archwiliadau. Yn achos Cymad, roedd yn amlwg bod yr archwiliadau wedi methu â chyflawni'r hyn a oedd yn ofynnol i atal taliadau i'r cwmni nad oedd ganddo hawl iddynt.

### Dylai WEFO fod wedi cynnal ymweliad dilynol â Cymad i sicrhau ei fod wedi mynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd yn ystod ymweliad monitro cynharach

**2.25** Amlygodd yr ymweliad monitro â Cymad a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2004 mewn perthynas â'r prosiect Cadw'r Lliw yn Llŷn, wendidau yn systemau a rheolaethau'r cwmni a arweiniodd at swm helaeth o'r gwariant anghymwys a nodwyd yn 2006. Ar adeg yr ymchwiliad cychwynnol nid oedd y cwmni wedi gwario fawr ddim ar brosiect yr UE. Fodd bynnag, amlygodd yr adroddiad, er enghraifft, brinder gwybodaeth am weithdrefnau tendro Cymad, a'r angen i sefydlu systemau i goladu dogfennau i ategu gwariant prosiectau. Dywedodd WEFO wrthym nad oedd y materion hyn yn annodweddiadol o wendidau a nodwyd mewn sefydliadau eraill a oedd yn sefydlu systemau a phrosesau ar gyfer rheoli arian yr UE.

**2.26** Yn dilyn yr ymweliad monitro, rhoddodd Cymad sicrwydd ysgrifenedig i WEFO ei fod wedi mynd i'r afael â'r materion a gododd o'r ymweliad. Fodd bynnag, er gwaethaf y sicrwydd hwn, ni wnaeth y Cwmni hynny. Byddai ymweliad dilynol â'r cwmni yn fuan wedi hynny wedi galluogi WEFO i ganfod a oedd y systemau yn gweithredu yn unol â'r hyn a honnodd Cymad, ac i gymryd camau adferol lle nad oedd hynny wedi digwydd. Byddai ymweliad o'r fath wedi bod yn briodol iawn am fod y gwendidau a nodwyd yn rhai systematig ac yn debygol o fod yn berthnasol i brosiectau eraill a gynhaliwyd gan y cwmni, a oedd o werth sylweddol.

**2.27** Byddai adolygiad parhaus o hyfywedd ariannol Cymad gan WEFO, gan gynnwys adolygiad blynyddol o'i ddatganiadau ariannol, wedi ei rhybuddio bod gwendidau posibl yn systemau rheoli ariannol y cwmni ac wedi ei galluogi i gymryd camau adferol yn y

cwmni cyn i'r honiadau gael eu gwneud am gamddefnyddio arian cyhoeddus. Mae'r adolygiad hwn yn arbennig o bwysig yn achos derbynyddion grant megis Cymad sy'n cael arian cyhoeddus dros nifer o flynyddoedd lle gall eu sefydlogrwydd ariannol newid.

2.28 Cred WEFO ei bod yn rhesymol dibynnu ar y sicrwydd a roddwyd gan y cwmni dro ar ôl tro yn absenoldeb tystiolaeth arall (ar y pryd) o reolaeth ariannol wael, ac nad oedd yn gosteffeithiol trefnu ymweliadau dilynol yn rheolaidd o dan amgylchiadau o'r fath yn enwedig am fod tystysgrifau archwilio diamod wedi cael eu cyflwyno i WEFO mewn perthynas â gwariant prosiectau. Ers hynny mae WEFO wedi cyflwyno ymweliadau cychwynnol ac adolygiadau rheolaidd o brosiectau ar gyfer pob prosiect o dan raglenni 2007-2013.

2.29 Datgelodd ymchwiliadau dilynol gan WEFO a Swyddfa Archwilio Cymru wendidau mawr yn y ddogfennaeth a oedd ar gael i ategu ceisiadau am grant a bod rheolaeth ariannol yn Cymad yn wael. Ni ddaeth y wybodaeth hon i'r golwg tan 2006. Daeth adolygiad ar wahân a gomisiynwyd gan Awdurdod Datblygu Cymru, i gadarnhau ariannu ar gyfer ei daliadau ei hun i'r cwmni, hefyd i'r casgliad bod rheolaeth a gallu ariannol yn wan. Fodd bynnag, roedd y gwaith hwn yn ymwneud â phryderon Awdurdod Datblygu Cymru yn unig ac nid oedd y cyrff ariannu eraill yn ymwybodol ohono nes iddo gael ei gwblhau.

## Ceir diffyg dealltwriaeth gyffredinol o ofynion dogfennol arian yr UE

2.30 O'n hadolygiad, ni allwn benderfynu a oedd methiant y cwmni i gydymffurfio â gofynion arian yr UE yn fwriadol ai peidio neu p'un a oedd o ganlyniad i ddiffyg dealltwriaeth o'r gofynion hynny gan staff Cymad. Fodd bynnag, mae'n amlwg nad oedd gan y cwmni drefniadau rheoli ariannol cadarn a'r arbenigedd ariannol i reoli arian yr UE yn briodol.

2.31 Mae gofynion dogfennol Arian Ewropeaidd yn gymhleth. Er bod canllawiau ar gael gan WEFO, er enghraifft yn y llythyr cynnig grant a gyhoeddir o ran pob prosiect ac ar ei gwefan, awgryma ein gwaith ar archwilio prosiectau'r UE a reolir gan gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru na chaiff y canllawiau hyn eu deall bob amser. Fel yn achos Cymad, ymhlith y meysydd cyffredin sy'n peri problemau mae caffael, methiant i gadw taflenni amser a'r defnydd o fethodoleg anghywir ar gyfer dosrannu gorbenion. Er i WEFO gyhoeddi canllawiau ar y materion hyn i'r cwmni yn dilyn ei hymweliad monitro ym mis Gorffennaf 2004, nid ymddengys fod Cymad wedi dilyn y cyngor hwn.

2.32 Ar gyfer cylch cyfredol (2007-2013) rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE, mae WEFO wedi cyhoeddi canllawiau mwy cynhwysfawr i noddwyr prosiectau. At hynny, mae staff yn Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithio gyda staff WEFO i ddarparu hyfforddiant o ran gofynion dogfennol arian yr UE i staff sy'n rheoli prosiectau’r UE yn Llywodraeth y Cynulliad. Fodd bynnag, dylai WEFO ystyried a oes angen ymestyn yr hyfforddiant hwn i dderbynyddion grant eraill, yn arbennig cwmnïau bach fel Cymad, er mwyn lleihau'r risg y bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn adfachu arian yr UE.

### Cymerodd WEFO gamau yn ddi-oed ar ôl i'r problemau o ran rheolaeth ariannol Cymad ddod i'r golwg

2.33 Ym mis Hydref 2006, pan ataliodd WEFO daliadau i Cymad, roedd Cymad wedi cael cymeradwyaeth am £1.23 miliwn arall o arian grant gan yr UE. Ar ôl i adroddiad WEFO gael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2007, rhoddodd Cymad sicrwydd i WEFO y byddai'n mynd i'r afael â'r diffygion yn ei systemau a'i weithdrefnau ariannol a arweiniodd at yr amcangyfrif cychwynnol o £459,000 o grant i'w adennill. Cytunodd y byddai'n parhau i gyflwyno ceisiadau am wariant i WEFO. Er na fyddai WEFO yn ad-dalu'r hawliadau hyn hyd nes y byddai WEFO wedi archwilio'r dogfennau a oedd yn eu hategu, gellid eu defnyddio i leihau'r ddyled sy'n weddill pe bai'r cwmni'n gallu dangos iddo fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd.

2.34 Dros y 18 mis nesaf, cyflwynodd Cymad geisiadau ychwanegol i WEFO gwerth £155,000 i gyd. Fodd bynnag, er gwaethaf ymrwymiadau Cymad i fynd i'r afael â gwendidau yn ei systemau ariannol, canfu ymweliad dilynol WEFO â'r cwmni ym mis Rhagfyr 2008 fod safonau trywydd archwilio a chadw cofnodion y cwmni yn parhau i fod yn wael.

2.35 Ym mis Mehefin 2009, daeth WEFO i'r casgliad fod y cwmni yn anfodlon ategu gwariant a hawliwyd neu na allai wneud hynny, a phenderfynodd geisio adennill £259,000 o arian grant oddi wrth Cymad. Roedd yr amcangyfrif hwn yn cynnwys £101,000 mewn perthynas â'r prosiect Mae'r Rhod yn Troi.

2.36 O'n hadolygiad rydym yn fodlon bod y gwaith a wnaed gan WEFO i nodi lefel y gwariant anghymwys a hawliwyd gan Cymad yn gadarn. At hynny, er bod gennym rai pryderon ynghylch faint o amser a gafodd Cymad i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd yn ei systemau ariannol, derbyniwn farn WEFO y gallai'r cwmni fod wedi bod yn nwylo'r gweinyddwyr yn gynt pe bai wedi mynnu cael ad-daliadau yn gynt, gan gyfyngu ar fuddiannau'r prosiectau yr oedd y cwmni yn eu cynnal ar y pryd. Mae'r gwaith a wnaed gan staff WEFO i gynghori a chynorthwyo'r cwmni wedi lleihau'n sylweddol yr ad-daliad posibl a oedd yn ddyledus ynghyd â'r swm o wariant y bydd yn rhaid hysbysu'r Comisiwn Ewropeaidd ei fod yn wariant anghymwys, a thrwy hynny wedi arbed tua £200,000 o arian cyhoeddus.

2.37 Dylai diddymu’r cwmni leihau’r golled o £259,000 sy’n weddill ymhellach. Fel credydwr ansicredig mae gan Lywodraeth y Cynulliad yr hawl i gael swm o’r broses ddiddymu. Mae'r broses ddiddymu eto i'w chwblhau felly nid yw'r difidend terfynol sy'n daladwy i gredydwyr ansicredig yn hysbys eto.

## Methodd cyrff cyhoeddus yng Nghymru â rhannu gwybodaeth yn effeithiol am y gwendidau a nodwyd ganddynt yn systemau a rheolaethau Cymad

2.38 Cyn yr honiadau am y camddefnydd posibl o arian cyhoeddus a wnaed i'r Archwilydd Cyffredinol, roedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac Awdurdod Datblygu Cymru gynt wedi cynnal ymweliadau monitro â'r cwmni mewn ymateb i'w pryderon eu hunain am gamddefnydd posibl o arian cyhoeddus. Cynhaliodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg asesiad risg hefyd.

2.39 Yn 2005, mewn ymateb i bryderon cyffredinol am gyflawni prosiect, roedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi rhoi'r gorau i ariannu Cymad ymlaen llaw, gan ofyn iddynt, yn hytrach, gyflwyno anfonebau/ceisiadau am y gwariant

a hawliwyd. Dywedodd staff ym Mwrdd yr Iaith Gymraeg wrthym eu bod wedi trafod eu pryderon a chanlyniadau eu hymweliad â swyddogion yn Llywodraeth y Cynulliad. Fodd bynnag, ni chafodd y pryderon hyn eu rhannu gyda chyrff cyhoeddus eraill, yn bennaf am nad oedd system ar waith i hyn ddigwydd, a pharhaodd y cyrff eraill i ariannu Cymad fel o'r blaen.

**2.40** Yn yr un modd, ni roddwyd adroddiad annibynnol a gomisiynwyd gan Awdurdod Datblygu Cymru ac a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2006, a amlygodd ddiffygion difrifol yn nhrefniadau rheoli ariannol y cwmni, i'r holl gyrff cyhoeddus eraill a oedd yn ariannu Cymad, er iddo gael ei rannu â WEFO.

**2.41** Nododd adroddiadau blaenorol yr Archwilydd Cyffredinol bryderon am ddiffyg cyfathrebu rhwng cyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru. Nodwn, yn arbennig, y tebygrwydd rhwng canfyddiadau'r adolygiad hwn a'r casgliadau a nodwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol a gyhoeddwyd ar ôl i asiantaeth fenter Gogledd Cymru, sef Antur Dwyryd Llŷn Cyf, chwalu ym mis Mehefin 2005. Fel yn achos Cymad, roedd Antur Dwyryd Llŷn yn dibynnu i raddau helaeth ar gontractau a grantiau gan y sector cyhoeddus, yn cynnwys arian a weinyddwyd gan Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant gynt, a WEFO. Fel Cymad, roedd yn destun rheolaethau mewnol gwael a chamreoli ariannol, ac yn y pen draw, fe'i diddymwyd, gan adael dyled o ryw £500,000 i gredydwyr a chan fod mewn dyled o £600,000 pellach i Gyllid y Wlad.

**2.42** Amlygodd adroddiad Antur Dwyryd Llŷn, cyn i'r cwmni fynd i'r wal, na chafodd pryderon a nodwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn ystod asesiad o gymhwyster ariannol y cwmni, eu rhannu â'r cyrff a noddir ganddi na WEFO. Nododd hefyd fod cyfathrebu gwael rhwng adrannau gwahanol Llywodraeth y Cynulliad a arweiniodd at oedi cyn penderfynu a ddylid dyfarnu arian cyfatebol ai peidio i'r cwmni.

**2.43** Ar ôl i Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad ystyried adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar Antur Dwyryd Llŷn ym mis Gorffennaf 2005, argymhellodd yn ei adroddiad y dylid rhoi trefniadau sefydlog ar waith ar gyfer pob corff lle caiff gwybodaeth a roddir i un rhan o'r sector cyhoeddus ei chyfleu mewn modd amserol i holl arianwyr y sector cyhoeddus. Derbyniwyd yr argymhelliad hwn gydag amodau gan Lywodraeth y Cynulliad yn ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor Archwilio. Barn Llywodraeth y Cynulliad ar y pryd oedd na ddylai fod yn atebol am arferion cyrff cyhoeddus y tu allan i'w rheolaeth ac y gallai darpariaethau deddfwriaeth diogelu data atal gwybodaeth rhag cael ei rhannu.
Roedd hefyd yn pryderu y gallai fod angen systemau newydd cymhleth a fyddai'n golygu cost ychwanegol sylweddol er mwyn rhannu data y tu hwnt i Lywodraeth y Cynulliad. Ymatebodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio drwy ofyn i Lywodraeth y Cynulliad gadarnhau y byddai'n mabwysiadu ymagwedd bragmatig a chymesur tuag at reoli risg a rhannu gwybodaeth ar y cyd.

**2.44** Yn ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor Archwilio, nododd Llywodraeth y Cynulliad hefyd y byddai'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar ddatblygu cronfa ddata a rennir yn Llywodraeth y Cynulliad yn galluogi ei Hadrannau i rannu gwybodaeth am dderbynyddion grant. Siom yw nodi, fwy na phedair blynedd ar ôl cyhoeddi adroddiad Antur Dwyryd Llŷn, nad yw'r gronfa ddata hon ar waith, a bod Llywodraeth y Cynulliad wedi methu â gweithredu argymhellion y Pwyllgor Archwilio o ran dulliau cyfathrebu gwell i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu'n ddigonol.

**2.45** Fodd bynnag, nodwn bod Llywodraeth y Cynulliad wrthi'n cynnal prosiect i ystyried sut y gellir datblygu fframwaith effeithiol a chynaliadwy ar gyfer rheoli grantiau yn y dyfodol. Bydd y gwaith hwn yn ceisio mynd i'r afael â rhai o'r pryderon a nodwyd o'r blaen. Nod y prosiect yw ceisio darparu gwell prosesau, gweithdrefnau ac offer corfforaethol i ategu'r gwaith o ddyfarnu, monitro a rheoli grantiau'n briodol, gan nodi fframwaith llywodraethu a rheoleiddio cyson ar gyfer rheoli adnoddau i helpu i ddiogelu rhag camddefnyddio arian.

**2.46** Mae'r achos busnes amlinellol yn argymell sefydlu ateb TG unedig corfforaethol ar gyfer rheoli grantiau a fydd yn hwyluso rhannu gwybodaeth rhwng adrannau Llywodraeth y Cynulliad. Mae 'Canolfan Ragoriaeth' grantiau hefyd wedi cael ei sefydlu i hyrwyddo safonau uchel o ran rheoli grantiau, drwy roi cyngor a chymorth i reolwyr grantiau drwy Lywodraeth y Cynulliad cyfan. Croesawn y datblygiadau hyn. Fodd bynnag argymhellwn, wrth weithredu ar y prosiect hwn, fod Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried sut y gellid rhannu'r wybodaeth a gynhyrchir gan y system gorfforaethol arfaethedig gydag arianwyr cyhoeddus eraill mewn modd amserol, er mwyn sicrhau y caiff arian cyhoeddus ei ddiogelu'n ddigonol.

# Atodiad 1 – Prosiectau a ariannwyd yn gyhoeddus yn Cymad

## Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant

**Contract Cyfrwng Cymraeg i Oedolion:** gwella adnoddau darparwyr dysgu i ddarparu mewn ffordd anhraddodiadol drwy gynnig cyrsiau hygyrch newydd, wedi'u cynllunio mewn ffordd a fyddai'n arwain at ruglder. Roedd wedi'i anelu at rieni plant ysgol feithrin cyfrwng Cymraeg, y rhai nad oeddent yn medru'r Gymraeg mewn ardaloedd Cymraeg a phobl a oedd yn dysgu'r Gymraeg yn y gweithle.

## Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO)

Ariannodd WEFO chwe phrosiect o raglenni 2000-06 y cronfeydd strwythurol Ewropeaidd:

**Prosiect Uwchgwyrfai:** prosiect amgylcheddol i osod ffensys, gridiau gwartheg a byrddau dehongli ar dir comin.

**Cadw'r Lliw yn Llŷn:** prosiect amgylcheddol i ddiogelu bywyd gwyllt ar Benrhyn Llŷn, codi ymwybyddiaeth a chynnig cyfleoedd hamdden.

**Croeso Cymraeg Mewn Busnes:** annog busnesau i ychwanegu gwerth at eu gwasanaethau drwy ddefnyddio'r iaith Gymraeg a rhoi amlygrwydd iddi.

**Cwlwm Iaith-Ymlaen â'r Gymraeg yn y Gymuned:** datblygu prosiectau a arweinir gan y gymuned i ehangu'r defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau difreintiedig.

**Amgylchedd Gwynedd:** cymorth staff a grantiau i annog grwpiau cymunedol i ddatblygu prosiectau gwirfoddol i wella'r amgylchedd lleol.

**Mae'r Rhod yn Troi:** cronfa ddatblygu i helpu tirfeddianwyr i ddatblygu cynlluniau trydan dŵr yng Ngwynedd mewn ffordd sy'n gynaliadwy ac yn gyson â'r amgylchedd naturiol. Cymorth i ymchwilio i'r cysyniad, cynnal astudiaethau dichonoldeb a grantiau am arian cyfalaf.

## Cyngor Gwynedd

**Menterra:** Cydgysylltodd Cymad â ffermwyr lleol fel rhan o'r prosiect peilot hwn gwerth £2.3 miliwn i annog ffermwyr i ddatblygu cnydau newydd a'u cysylltu â chyfleoedd prosesu a marchnata.

**Llwyddo'n Lleol:** Cynhaliodd Cymad weithdai drama fel rhan o'r prosiect datblygu cymunedol gwledig hwn, wedi'i arwain gan Gyngor Gwynedd ac wedi'i ariannu gan y WDA.

## Bwrdd yr Iaith Gymraeg (BYIG)

**Menter Iaith Cymraeg (Menter Iaith)** – sefydliadau lleol sy'n cynnig cymorth i gymunedau er mwyn cynyddu a datblygu eu defnydd o'r iaith Gymraeg, a gynorthwywyd gan ariannu grant.

**Llinell gymorth gwaith cartref** i gynnig cymorth i rieni plant mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ysgolion dwyieithog.

Mae **prosiect y mewnfudwyr** yn anelu at godi ymwybyddiaeth ymhlith mewnfudwyr i Benrhyn Llŷn am yr iaith Gymraeg fel iaith y gymuned.

**Contract Grant Busnes** i roi cymorth ariannol i gwmnïau bach i wneud mwy o ddefnydd o'r iaith Gymraeg, drwy dalu am gyfieithiadau byr, arwyddion, taflenni neu ddeunyddiau gweledol eraill.

## Awdurdod Datblygu Cymru (WDA)

**Sefydlu busnesau newydd:** Rhoddodd Cymad gyngor busnes i fusnesau newydd o dan gontract i'r WDA.

**Cyswllt Ffermio:** Rhoddodd Cymad gyngor datblygu amaethyddol a bwyd i ffermwyr o dan gontract.

## Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)

**Lliw yn Llŷn:** arian cyfatebol ar gyfer prosiect a ariannwyd gan yr UE yn ymwneud â chlirio tir, arwyddion newydd ar lwybrau troed a gwelliannau i gynefinoedd.

**Comin Uwchgwyrfai:** dau adroddiad (Astudiaeth Sylfaenol ac astudiaeth reoli o'r Comin).

## Bwrdd Croeso Cymru

**Grant Naws am Le:** Talodd Cymad grantiau i fusnesau bach am arwyddion Cymraeg o dan gontract i Fwrdd Croeso Cymru.

**Adfywio**: rhywfaint o arian i uwchraddio llwybrau troed a llwybrau bach.